# Cenn@d

IONAWR 10 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 150


## Cyfarchion Blwyddyn Newydd llywyddion yr enwadau



Blwyddyn newydd dda i chi i gyd. Gobeithio y cewch flwyddyn dangnefeddus fydd wrth eich bodd, a gadewch i ni symud ymlaen i'r flwyddyn newydd yn hyderus a llawn gobaith.

Byddaf fel arfer wrth fy modd yr adeg hon o'r flwyddyn yn edrych yn ôl ar y flwyddyn aeth heibio, ac mae'r wasg yn benderfynol o'n hatgoffa am binaclau'r flwyddyn honno. Beth fyddwch chi'n ei gofio am 2023? Achlysuron teuluol wrth gwrs: genedigaethau a cholledion, penblwyddi arbennig, llwyddiannau unigol, priodasau, a mwy. Ond beth am ddigwyddiadau eraill tu allan i'n cylch arferol? Trychinebau naturiol. Newid yn yr hinsawdd. Creulondeb pobl at ei gilydd. Rhyfel. Tlodi plant. Digartrefedd. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Ychydig amser yn ôl cawsom gyfle yn y Tabernacl, Caerdydd, i gyd-ganu'r hen, hen ffefryn, 'Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?' Gwnaeth i mi feddwl, fodd bynnag, pwy fydd yma 'mhen ugain mlynedd?

> Pwy fydd yma yn y seddau?
> Pwy fydd yn y gadair fawr?
> Pwy fydd yma'n gorfoleddu
> Gyda chenadwri'r awr?

A ydych wedi meddwl o ddifrif beth yw'r ateb i'r cwestiwn? Mae'n siŵr eich bod chi – gyda'r sôn diddiwedd am gau capeli neu gostau uchel eu cadw'n agored, cynulleidfaoedd yn gwanhau a methiant i ddenu aelodau i ymgymryd â swyddi allweddol yn yr eglwys, nifer gweinidogion yr efengyl yn gostwng, diffyg plant a phobl ifanc. Mae'r sefyllfa, yn ôl y sôn, yn un gyffredin ym mhob cwr o Gymru.

Ond peidiwn â digalonni. Mwy na hynny, ystyriwch o ddifrif pa hawl sydd gennych chi i anobeithio. Mae hynny'n bechod ac nid yw i'w weld yn swydd-ddisgrifiad y Cristion. Nid y fi biau'r geiriau heriol hyn ond y Parchedig Olaf Davies ar ei bregeth yn Oedfa'r Weinidogaeth yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yng Nghaerdydd fis Mehefin diwethaf. Mae Duw ar waith ac mae'n gwrando ar ein gweddïau. Mae yna dystiolaeth ar draws y wlad o genhadu a rhannu'r efengyl Gristnogol, ond efallai mewn dull gwahanol i'r arfer. Cofiwn am gomisiwn Iesu i'w ddisgyblion cynnar i fynd i'r holl fyd 'a gwneud disgyblion o'r holl genhedloedd'. Ni yw'r disgyblion presennol, ac nad anghofiwn fod comisiwn Iesu yn berthnasol i ninnau hefyd. Mae'r cyfrifoldeb yn enfawr!

*Bill Davies*
*Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru*

---



'Canys Efe yw ein tangnefedd ni' yw gosodiad herfeiddiol Paul am Grist yn ei lythyr at eglwys Effesus (Effesiaid 2:14). Heddwch yw'r hyn a ddymunwn ei weld wedi blwyddyn ryfelgar arall yn hanes y ddynoliaeth. Parhawn yn ein gweddïau.

Daliwn hefyd at ein galwad yng Nghrist i fod yn rhan o weinidogaeth ryfeddol y cymod sydd ynddo. Atseiniwn yr hyn a ddeallodd Paul amdano ac a fynegodd i'r eglwys yng Ngholossa: 'Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef: ac, wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef, trwyddo ef gymodi pob peth ag ef ei hun: trwyddo ef, pa un bynnag ai pethau ar y ddaear, ai pethau yn y nefoedd.' (Colosiaid 1:19,20)

Rhyfeddwn eto at gyflawnder ac addasrwydd person Crist ac at y grym sy'n tarddu o waed ei groes lle caiff gelynion gydgyfarfod a'u dwyn i heddwch a chymod.

Teimlwn yn fach a di-fudd yn aml yn wyneb argyfyngau mawr y byd, ond mae'r bach a'r agos ynghyd â'r mawr a'r pell yn un yng Nghrist, ac nid yw'r Arglwydd yn diystyru aberth y galon ysig nac yn diffodd llin yn mygu. A. M. Allchin sy'n crynhoi yn ei bennod ar 'Rhyfeddod yr Ymgnawdoliad: y Plygain a gweithiau Ann Griffiths':

> To speak of the incarnation is to speak of the meaning of heaven and earth, of eternity and time, of God and man. It involves a bringing together of things small, intimate, touched and known, with things immense, transcendent, unimaginable and unknown. It means the coming together of the long slow processes of time with the sudden and unpredictable gifts of eternity. (Allchin, *Praise Above All*, t. 90)

O wybod felly nad yw ein hymdrechion fel rhan o gorff Crist yn ofer, diolchwn am bob gweithred o lafur yn yr Arglwydd a gyflawnwyd yn yr hyn a oedd yn gyfarwydd i ni ac wrth dderbyn y bendithion nefol. Cawsom ein cynnal yng nghymdeithas hyfryd yr Arglwydd, a diolchwn i bawb a fu'n cynnal y moddion hynny o ras o ddydd i ddydd yn ein heglwysi a'n cymunedau.

Cofiwn yn arbennig am y teuluoedd a brofodd golled a galar. Ers i mi gychwyn fy ngwasanaeth fel Llywydd ym mis Gorffennaf 2023 galwyd tri cyn-Lywydd gartref i blith y cwmwl tystion. Mae ein diolchgarwch a'n gwerthfawrogiad o fywyd a gwasanaeth ein brodyr Brynley Francis Roberts, y Parchedig Emlyn Richards a'r Parchedig Robert Bebb yn gywir iawn wrth i ni gofio a diolch hefyd am bob un o'n gweinidogion, ein blaenoriaid a'n haelodau annwyl sydd wedi ein blaenori ni i'r cartref nefol a ddarparwyd ar ein cyfer yng Nghrist. Cyflwynwn eu teuluoedd i ofal ein Harglwydd ac i ymgeledd ei gariad a'i ras.

Fel rhan o Eglwys Crist sy'n fyd-eang diolchwn hefyd am y cyfleon a gawsom i gyfrannu tuag at anghenion mawr y byd trwy gydweithio a chydgario beichiau ein

(parhad ar y dudalen nesaf)


Cyfle i ieuenctid ddod ynghyd
Tudalen 5

Cofio cyfraniad arloesol Elisabeth James i'r Cyngor Ysgolion Sul
Tudalen 7

Noson Dathlu'r Nadolig ym Mhontrhydfendigaid
Tudalen 8

*Cyfarchion Blwyddyn Newydd*
*llywyddion yr enwadau*

gilydd. Hyderwn, os Duw a'i myn, y bydd cyfleon newydd yn dod i'n rhan yn yr amser sydd o'n blaenau yn 2024 ac y cawn weld a phrofi Ysbryd Duw ar waith yn dwyn y byd at droed y groes ac at y cymod tragwyddol sydd i'w dderbyn yno.

Wrth ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gilydd cyflwynwn ein gilydd i gariad a gofal ein Duw sydd, yng Nghrist a thrwy nerth ei Ysbryd, yn abl i'n cynnal a'n cadw: ein cynnal i barhau i weddïo a gweithredu yn ei enw a'n cadw i fod yn dystion i ogoniant ac arglwyddiaeth Iesu.

Blwyddyn Newydd Dda a bendithiol i chi a chanmil diolch i bob un ohonoch am eich cyfraniad i fywyd a thystiolaeth Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

*Aneurin Owen*
*Llywydd y Gymanfa Gyffredinol*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*



Ydy hi wedi bwrw eira acw eto eleni? Ydych chi'n rhywun sy'n mwynhau gweld eira'n disgyn?

I bobl hŷn gall eira fod yn drafferthus, ond i'r ifanc mae'n bleser ac yn hwyl. Pan oeddwn i'n athrawes, roedd hi bron yn amhosib dal sylw plant y dosbarth unwaith roedden nhw wedi sylwi ei bod yn bwrw eira. Yr unig beth roedden nhw eisiau ei wneud oedd rhedeg at y ffenest i wylio'r plu eira.

Ac i'r ifanc a'r rhai hŷn fel ei gilydd, does dim byd tebyg i syllu ar eira sydd newydd ddisgyn. Mae fel dalen newydd mewn llyfr nodiadau neu ddechrau blwyddyn newydd.

A fedrwn ni ddim peidio ag edrych ymlaen at 2024 ag ychydig o optimistiaeth, na fedrwn? Hyd yn oed os oedd 2023 yn *annus horribilis* inni, neu efallai oherwydd hynny. Ond rydych chi'n gwybod y bydd profiadau bywyd go iawn, yn union fel yn achos eira sydd newydd ddisgyn, yn dod i ddifetha ac amharu ar eich gobeithion.

A dyna un rheswm pam mae angen yr eglwys arnom. Fel Cristnogion, rydyn ni bob amser eisiau i bethau fod yn well, a gyda chymorth Crist, ei Ysbryd Glân a theulu'r eglwys rydyn ni wedi ein galw i fod yn rhan ohono, gallwn wneud hynny.

Rydyn ni'n sylwi ar hyn yn y garol enwog am y brenin Wenceslas. Fe gofiwch fod y Brenin yn annog ei was i ddal ati i gerdded drwy'r oerfel drwy ddilyn yn ôl ei draed lle mae'r eira wedi meirioli, a'r ddaear felly ddim mor oer yn y fan honno. Dyma'r pennill olaf yng nghyfeithiad D. Jacob Davies:

Ac yng nghamrau'r meistir aeth
Dros y llwybyr caled,
Ond ni rewai'r eira mwy
Lle bu'r sant yn cerdded.
Gristion annwyl, cofia hyn,
Ôl dy draed a wylir,
Wrth roi bendith fach i'r tlawd,
Tithau a fendithir.

*(Clychau'r Nadolig,*
*gol. D. Geraint Lewis, t. 30)*

Wrth i chi addunedu i weddïo mwy, i ddarllen eich Beibl yn fwy rheolaidd, i gefnogi cenhadaeth, i roi cynnig ar gynllun newydd yn eich eglwys, i gyfrannu yn fwy hael, neu ymrwymo i gefnogi rhywbeth yn yr eglwys ehangach, cofiwch beidio â gwneud hynny ar eich pen eich hun. Chwiliwch am rywun i fod yn bartner i chi. Trefnwch i weddïo gyda'ch gilydd, chwilio am nodiadau Beiblaidd addas, sefydlu clwb llyfrau, gofyn i ffrind gydweithio â chi.

Ar hyn o bryd, mae'r flwyddyn 2024 yn parhau i fod yn gwrlid o eira heb ei gyffwrdd. Ond cyn hir bydd rhywun wedi sathru arni a'i difwyno, ac fe fyddwch yn cael eich siomi.

Dyna pam mae Duw wedi eich galw i gymdeithas yr eglwys. Mae'n llawer haws ffynnu mewn cymuned na gwneud hynny ar eich pen eich hun. Gyda ffrindiau Cristnogol da, mae cyfle o hyd ichi benderfynu dechrau a chwblhau eich addunedau.

Ar ran Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, hoffwn ddymuno pob bendith i chi yn y flwyddyn newydd hon.

*Christine Hodgins*
*Llywydd Adran y Chwiorydd*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*



Cyfarchion i ddarllenwyr *Cenn@d* ar ddechrau blwyddyn newydd! Bendith Duw ar y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Ar ddechrau blwyddyn, nid oes gennym syniad beth fydd ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a pha heriau a chyfleoedd sy'n ein disgwyl.

Yn 2023 cefais y fraint o ddod yn Llywydd Adran Genhadol y Chwiorydd yn Undeb Bedyddwyr Cymru, a chynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yng Nghapel Caersalem, Caernarfon, ym mis Mai.

Fe glywsom am waith BMS World Mission ac yn benodol am weinidogaeth cyfiawnder ar sail rhywedd y mae Annet Ttendo-Miller yn ei harwain sy'n newid bywydau, yn grymuso merched ac yn rhoi urddas iddynt.

Ein thema y diwrnod hwnnw oedd Eseia 52:7 – 'Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed y negesydd sy'n cyhoeddi heddwch, yn datgan daioni, yn cyhoeddi iachawdwriaeth; sy'n dweud wrth Seion, "Dy Dduw sy'n teyrnasu!"'

Daeth Iesu Grist i gyhoeddi fod teyrnas Dduw wedi dod yn agos, ac mae'r newyddion da fod Duw yn teyrnasu yn parhau i newid bywydau trwy'r byd i gyd.

Mae'n hawdd i ni golli persbectif ar hyn ynghanol treialon bywyd, ac wrth weld anghenion cymdeithas a'r anghyfiawnder sy'n parhau o gwmpas y byd. Yn ein cynhadledd ym mis Medi atgoffwyd aelodau Adran y Chwiorydd o rym cariad Duw ac fe wnaethon ni fwynhau cymdeithas felys a fu'n fodd i ddyfnhau ein ffydd.


Oes, mae blwyddyn annisgwyl o'n blaen, ond fel Cristnogion gallwn ddatgan fod ein Duw yn teyrnasu. Sut gall ein traed ni 'gyhoeddi heddwch', 'datgan daioni' a 'chyhoeddi iachawdwriaeth' yn y byd sydd o'n cwmpas? Y gwir yw bod angen i'r byd sydd o'n cwmpas glywed y newyddion da yma yn fwy nag erioed – bod cymod yn bosib, bod ein Duw yn dda a'i fod yn cynnig bywyd newydd drwy Ei gariad.

Wrth feddwl a gweddïo am y sefyllfa erchyll yn Gasa ar hyn o bryd, cofiwn eiriau dewr Cristnogion Palesteinaidd sy'n datgan fod Duw gyda nhw yn y rwbel. Mae'n Dduw sy'n rhoi tangnefedd iddyn nhw yn eu poen a'u pryder, ond hefyd yn Dduw sy'n mynnu ein bod ni fel Cristnogion cyfforddus yn codi ein llais dros y sawl sy'n dioddef anghyfiawnder. Dyma bennill o gerdd a ysgrifennais ar gyfer y Nadolig:

Mae Duw gyda ni, Emaniwel,
mewn galar, mewn gobaith, ynghanol
y rwbel.
Yn nabod ein dolur, fe gymer ein iau,
a thrwy ei glwyfau mae ffordd i'n
hiacháu.

Blwyddyn Newydd Dda!

*Menna Machreth*
*Llywydd Adran Genhadol Chwiorydd*
*Undeb Bedyddwyr Cyrmu*




Yn 1970 agorwyd cartref gofal yng Nghastellnewydd Emlyn gyda'r bwriad o gynnig lle cysurus i bobl yng ngaeaf eu bywydau. Breuddwyd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru oedd Glyn Nest, ac fel Llywydd y Mudiad dw i'n teimlo mor freintiedig i gael bod yn Gaplan y Cartref.

Dw i'n ffodus dros ben o gael bod yn rhan fach o'r tîm arbennig sy'n cynnig gofal i bobl sy'n dewis Glyn Nest fel eu cartref. Bob tro y cerddaf i mewn i'r cartref dw i'n gweld ffydd ar waith, a dw i'n gobeithio bod y merched hynny a benderfynodd agor Glyn Nest dros hanner can mlynedd yn ôl yn falch o'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn y tŷ arbennig yma o ddydd i ddydd.

Does dim amheuaeth nad oes yna sawl sialens wrth redeg y cartref, fel y dychmygaf gydag unrhyw gartref gofal o'r fath, ond mae'r staff a'r pwyllgor yn benderfynol y bydd Glyn Nest yn goroesi. Dechreuais fel y Caplan yng nghanol y pandemig, ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf dw i wedi cael y fraint o ddod i adnabod y staff, y deiliaid a'r teuluoedd sydd ynghlwm â Glyn Nest. Mae pawb â'i stori, pawb â'i resymau unigol pam maen nhw wedi dewis dod atom i Gastellnewydd Emlyn.

Un peth sy'n fy rhyfeddu o hyd yw sut mae pob un o'r deiliaid yn cael ei drin fel unigolyn – pob un â'i hanesion, pob un â'i diddordebau – a'r staff wedyn yn ceisio'u gorau i sicrhau eu bod nhw'n byw eu bywydau yn gywir fel maen nhw eisiau. Does dim angen i fi ddweud wrthoch chi fod yna adegau o dristwch, fod yna adegau lle mae angen i ni edrych ar ôl rhai sy'n wynebu eu dyddiau olaf. Un o'r pethau pwysicaf dw i'n ei wneud yw dal llaw, rhannu gair o weddi a cheisio bod o gysur. Ac er bod hyn yn ofnadwy o drist, mae'n fraint i ni fel staff i gael helpu'r person sy'n marw a'u teuluoedd mewn unrhyw fodd posib – mewn ffordd ymarferol ac ysbrydol.

Un o'r darnau mwyaf enwog yn llyfr y Diarhebion yw pennod 31, lle rydym yn clywed am rinweddau'r wraig dda. Yn bennaf, mae'r rhinweddau'n sôn am ofalu am eraill, ac mae adnod 20 yn dweud 'yn helpu pwy bynnag sydd angen'. A dw i'n credu, gyda phawb sy'n dewis Glyn Nest fel eu cartref, ein bod ni yn helpu ac yn ceisio gwneud ein gorau drostynt. Teimlodd y gwragedd hynny yn 1970 yr alwad i ofalu am bobl mewn angen. Ond mae yna hefyd adnod yn y bennod yn sôn am barchu'r Arglwydd, ac mae hynny'n bwysig iawn i'w gofio am Glyn Nest – bod ffydd wrth wraidd popeth rydym yn ceisio'i wneud. A hynny nid yn unig yn yr oedfaon rheolaidd sy'n cael eu cynnal yno, ond drwy ein gweithredoedd. Ac mae hyn yn cynnwys y tîm sy'n gweithio yn y cartref 24 awr y dydd, a'r pwyllgor gweithgar sy'n cadw llygad ar bopeth.

Fel Llywydd y Mudiad, dw i'n ei gweld yn ddyletswydd arnaf i ddangos i bawb y gwaith arwrol sy'n digwydd yn y lle unigryw yma. Bob tro y byddaf yn cerdded i mewn i'r cartref mae yna chwerthin, cerddoriaeth ac arogl bwyd blasus yn fy nghyfarfod. Ie, er mai cartref gofal yw Glyn Nest, drwy waith diflino pob aelod o'r staff gallwn gynnig 'cartref' yng ngwir ystyr y gair, rhywle y gallwn, fel Mudiad, fel Undeb ac yn bennaf fel Cristnogion, fod yn falch iawn ohono. Felly, rhown glod i'r hyn wnaeth y merched hynny ei gyflawni yn 1970, a chanmolwn hefyd y rhai sy'n parhau â'r gwaith yn 2024.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd oddi wrth bawb yng Nglyn Nest.

*Sian Elin Thomas*
*Llywydd Mudiad y Chwiorydd*
*Undeb Bedyddwyr Cymru*

# ‘Câr yr Arglwydd dy Dduw … a châr dy gymydog fel ti dy hun’

## Thema Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol: 18–25 Ionawr

Yn ôl yr arfer mae’r wythnos Ionawr 18–25 wedi ei nodi fel Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol. Paratowyd y deunyddiau ar gyfer yr wythnos hon eleni gan dîm eciwmenaidd o Burkina Faso gyda chymorth y Gymuned Chemin Neuf leol. Y thema a ddewiswyd yw “Câr yr Arglwydd dy Dduw … a châr dy gymydog fel ti dy hun” (Luc 10:27). Mae’r deunyddiau i gyd ar gael yn Gymraeg am ddim o wefan CTBI: https://ctbi.org.uk/wp-content/uploads/2023/11/WPCU-2024-Welsh-English-pamphlet-for-web.pdf.pagespeed.ce.S6IaZ9kOR4.pdf

Rhan o ranbarth y Sahel yng Ngorllewin Affrica yw Burkina Faso, rhanbarth sy’n ymestyn i wledydd Mali a Niger gerllaw. Mae i’r wlad arwynebedd o 174,000 cilometr sgwâr a phoblogaeth o un filiwn ar hugain, sy’n cynnwys tua thrigain o grwpiau ethnig. Mae oddeutu 64% o’r boblogaeth yn Fwslimiaid, 9% yn ddilynwyr crefyddau Affricanaidd traddodiadol a 26% yn Gristnogion (20% yn Gatholigion a 6% yn Brotestaniaid). Mae aelodau o’r tri grŵp crefyddol hyn i’w canfod ym mhob rhan o’r wlad ac ymron ym mhob teulu.

Ar hyn o bryd mae Burkina Faso yn profi argyfwng diogelwch difrifol sy’n effeithio ar bob cymuned ffydd. Ar ôl ymosodiad jihadaidd enfawr a oedd yn deillio o’r tu allan i’r wlad yn 2016, dirywiodd y sefyllfa ddiogelwch yn Burkina Faso, ac o ganlyniad ei chydlyniant cymdeithasol, yn sylweddol. Mae’r wlad wedi dioddef cynnydd mewn ymosodiadau terfysgol, torcyfraith a masnachu pobl. Gadawodd hynny dros dair mil o bobl wedi marw a bron i ddwy filiwn o bobl wedi’u dadleoli o fewn y wlad. Mae miloedd o ysgolion, canolfannau iechyd a neuaddau trefi wedi cael eu cau, ac mae llawer o’r seilwaith economaidd-gymdeithasol a thrafnidiaeth wedi’i ddinistrio. Mae offeiriaid, gweinidogion a chatecyddion wedi cael eu lladd yn ystod gwasanaethau addoli ac ni wyddys beth fu tynged eraill a gafodd eu herwgipio. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae dros 22% o diriogaeth y wlad y tu hwnt i reolaeth y wladwriaeth ac ni all Cristnogion arfer eu ffydd yn agored yn yr ardaloedd hynny bellach. Oherwydd gweithgareddau terfysgol, mae mwyafrif yr eglwysi Cristnogol yng ngogledd, dwyrain a




gogledd-orllewin y wlad wedi cael eu cau. Nid oes bellach unrhyw addoli Cristnogol cyhoeddus mewn llawer o’r ardaloedd hyn, ond lle mae addoli yn parhau’n bosibl dan amddiffyniad yr heddlu, fel arfer mewn dinasoedd mawr, rhaid cwtogi ar hyd y gwasanaethau oherwydd pryderon diogelwch.

Bu’r gwahoddiad i gydweithio ar y testunau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2024 yn her i Eglwysi Burkina Faso gydgerdded, cydweddïo a chydweithio yn rhwymau cariad yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gyfer eu gwlad. Mae cariad Crist, sy’n uno pawb o’i bobl, yn gryfach na’u rhwygiadau, ac mae Cristnogion Burkina Faso yn ymrwymo i gydgerdded llwybr cariad tuag at Dduw a chymydog. Mae ganddynt hyder y bydd cariad Duw yn goresgyn y trais sydd heddiw’n gormesu eu gwlad.

Meddai Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon:

‘Mae dameg y Samariad Trugarog yn un o’r darnau mwyaf adnabyddus yn yr Ysgrythur, ond eto nid yw’n ymddangos ei bod byth yn colli ei grym i herio difaterwch yn wyneb dioddefaint ac i ysbrydoli cydsefyll â’r rhai sy’n dioddef. Mae’n stori am groesi ffiniau sy’n hoelio ein sylw ar y rhwymau sy’n uno’r ddynoliaeth gyfan.

‘Wrth ddewis y darn hwn o’r Ysgrythur ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae eglwysi Burkina Faso wedi ein gwahodd i ymuno â nhw mewn proses o hunanfyfyrio wrth iddynt ystyried beth mae’n ei olygu i garu ein cymydog yng nghanol argyfwng diogelwch. Er bod cymunedau ym Mhrydain ac Iwerddon mewn llai o berygl oddi wrth weithredoedd o drais torfol nag yw cymunedau Burkina Faso, eto mae llawer yma’n parhau i fyw gydag atgofion o drais difrifol a llawer yn profi bygwth hynny yng nghyd-destun hunaniaeth a pherthyn. Mae hefyd grwpiau o fewn cymunedau, gan gynnwys pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phobl sy’n ceisio lloches, sy’n teimlo’n arbennig o agored i drais neu gael eu dadleoli dan fygythiad trais.

‘Mae ein cymdogion yn Burkina Faso yn ein galw i gofleidio o’r newydd freuddwyd Duw ar ein cyfer – breuddwyd o undod ar sail rhwymau cariad a thosturi. Mae hyn yn ein herio nid yn unig i fyfyrio ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu ar ein taith eciwmenaidd hyd yma, ond hefyd i ehangu ein gweledigaeth. Beth allwn ni ei ddysgu gan bobl o grefyddau eraill, gan y rhai sydd o gefndiroedd gwahanol iawn i ni, a beth sydd ei angen arnom oddi wrth ein gilydd?

‘Mae’r myfyrdodau yn ein hannog i ystyried safbwynt nid yn unig yr un a drugarhaodd, ond hefyd y rhai a aeth heibio ar yr ochr draw. Ni fydd llawer ohonom wedi bod yn ymwybodol o’r bygythiad sy’n wynebu cymunedau yn Burkina Faso cyn darllen y deunyddiau hyn. Mae’n ein hatgoffa mewn modd grymus am y gwrthdaro sy’n digwydd ledled y byd, y mae llawer ohono wedi ei esgeuluso ond sy’n parhau i ddinistrio bywydau a difetha cymunedau. Prin yw’r sefyllfaoedd sy’n gallu ennyn sylw cyfryngau’r byd, a phrinnach fyth yw’r rhai sy’n gallu cadw’r sylw hwnnw. Galwyd yr Eglwys i fod yn eiriolwr dros y rhai a ddaliwyd yn y gwrthdrawiadau anghofiedig hyn, ac i sicrhau y clywir lleisiau’r rhai sy’n teimlo’n wrthodedig.

‘Yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, mae’r Eglwys yn cael ei herio i aros gyda’r clwyfedig a’u hymgeleddu ac, wrth wneud hynny, gydnabod ein clwyfau ni ein hunain fel eglwysi ac fel cymunedau. Mae wynebu gwirionedd ein natur doredig ni ein hunain o gymorth i ni gydsefyll â’r rhai sy’n dioddef, yn ostyngedig a chyda dyfnder empathi, a’n cydgyfarfod wedi ei gysegru a’i ysbrydoli gan gariad iachusol Crist.’

# Cyfle i ieuenctid ddod ynghyd

Gwahoddiad gan y Parch. Tim Moody, Llywydd Adran Saesneg Undeb Bedyddwyr Cymru, a Sioned Graves, Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol UBC.




Hoffem gyflwyno Esgyn i chi, sef menter newydd ar gyfer pobl ifanc yn ein heglwysi. Y bwriad yw creu cyfle iddyn nhw ddod at ei gilydd i adeiladu perthynas â'i gilydd yn ogystal â darganfod mwy am Dduw.

Wrth wraidd Esgyn y mae'r sylweddoliad mai dim ond un neu ddau o bobl ifanc sydd gan nifer o'n heglwysi. Ac felly, gyda hynny mewn golwg, bwriad Esgyn yw creu cyfle i bob un ohonyn nhw ddod yn rhan o rywbeth mwy, gan ddod â'r 'un' a'r 'ddau' ynghyd er mwyn derbyn anogaeth, ffurfio cymuned, dysgu mwy, a chael hwyl! Rydyn ni eisiau sicrhau na fydd unrhyw berson ifanc yn colli'r cyfle i fod yn rhan o hwn.

Digwyddiad cyntaf Esgyn fydd penwythnos ieuenctid yng nghanolfan The Rock UK, Treharris, 9–11 Chwefror 2024.

Bydd y penwythnos yn cael ei gynnal o'r nos Wener tan y prynhawn Sul, a bydd cyfle i'r bobl ifanc fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael yng nghanolfan The Rock UK, yn ogystal â mwynhau prydau bwyd gyda'n gilydd, gweithgareddau tîm, amser addoli a chyfnodau defosiynol.

Rydyn ni'n credu yn gryf nad yw Duw wedi gorffen gyda'i eglwys, ac felly fod angen i ni fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf hon yn benodol tra mae rhai ohonyn nhw'n dal i ymwneud â bywyd yr eglwys (a'r rhai sydd ddim!). Y gobaith yw y bydd Esgyn yn helpu i adeiladu cysylltiadau rhwng cyfoedion ac yn annog pobl ifanc ar eu taith ffydd, lle bynnag maen nhw ar y daith yna.

I'r diben hwnnw, rydyn ni'n gofyn i chi ymuno â ni yn yr antur hon!

- Yn gyntaf, plis **gweddïwch** dros y prosiect hwn wrth i ni symud at sefydlu menter ieuenctid hirdymor ym mywyd yr Undeb. Siaradwch â Sioned (manylion isod) os hoffech chi wybod mwy am sut y gallech chi ymuno â ni mewn gweddi. Byddwn yn cynnal rhai digwyddiadau gweddi yn ystod mis Ionawr dros waith Duw ymhlith y cenedlaethau iau yng Nghymru.

- Yn ail, gofynnwn i chi ystyried annog **unrhyw bobl ifanc** yn eich eglwysi neu eich cymunedau i ddod i'r penwythnos ym mis Chwefror (a digwyddiadau Esgyn yn y dyfodol!). Mae yna bosteri a phamffledi digidol y gellir eu rhannu ymhlith teuluoedd a grwpiau. Gofynnwch i Sioned os hoffech gael rhagor o gopïau caled.

- Yn olaf, gofynnwn i chi ystyried sut y gallwch chi **gefnogi'r** prosiect.

Rydym ni'n ymwybodol fod arian a chyllid yn sialens i nifer o deuluoedd, felly rydyn ni'n gobeithio gwneud y penwythnos mor fforddiadwy â phosib. Dylai'r penwythnos ei hun gostio tua £130 y person, ond mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn garedig wedi ymrwymo i ddod â'r gost honno i lawr i £90 y person. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyfradd o £35 y person i rai allai ei chael yn anodd talu. Eto, mae hyn yn anelu at sicrhau bod mynediad gan bawb at Esgyn.

Os oes gennych bobl ifanc yn eich eglwys a fyddai'n dymuno dod i'r penwythnos, ond efallai y bydden nhw'n ei gweld hi'n anodd talu £90, gofynnwn i chi ystyried eu 'noddi' nhw i ddod, gan dalu'r £55 o wahaniaeth fel eu bod nhw'n talu £35 yn unig. Ac os nad oes gennych chi unrhyw bobl ifanc yn eich eglwys ond y byddech chi'n dymuno cefnogi'r gwaith ymhlith y genhedlaeth iau, efallai yr hoffech chi gefnogi person ifanc i ddod, gan roi rhodd ariannol tuag at y gwaith hwn.

Ein gobaith yw na fydd unrhyw berson ifanc yn methu cael mynediad at Esgyn. Rydyn ni eisiau sicrhau bod y cyllid mewn lle fel bod pob person ifanc sydd eisiau dod i glywed am Dduw a mwynhau cymdeithas gydag eraill yn gallu gwneud hynny. Felly, gofynnwn i chi ymuno â ni yn y fenter newydd hon mewn unrhyw ffordd rydych chi'n teimlo eich bod chi'n medru.

I ddarllen mwy am Esgyn, cael manylion pellach am ein penwythnos arbennig, ac i rannu â'ch eglwys neu eich pobl ifanc, ewch at: Esgyn – The Baptist Union of Wales (buw.wales) neu edrychwch ar ein tudalen Instagram newydd: Esgyn (@esgynyouth) • Instagram photos and videos.


Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â fi neu Sioned gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost isod – byddem yn falch o siarad â chi!

Pob bendith i chi,
Tim – tmoody083@gmail.com
Sioned – sioned@ubc.cymru

# Gair Duw ar Waith
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**

**Pennod 16**
**Helpu plant**
**Sul, 14 Ionawr**




### Gweddi

Nefol Dad, rwy'n troi atat o'r newydd heddiw ac yn gofyn am dy gwmni. Helpa fi i sylweddoli fy mod yn perthyn i'th deulu ac yn cael y fraint o'th alw yn Dad Nefol. Amen.

### Darlleniad: Marc 10: 13–16

'Gadewch i'r plant ddod ataf fi.' (adn. 14)

### Cyflwyniad

Byddwn yn gyfarwydd â'r darlleniad yn Efengyl Marc sy'n nodi bod Iesu yn hapus i weld plant yn ei ymyl. Hyd at yn gymharol ddiweddar, byddai sawl diwylliant yn disgwyl bod teuluoedd yn magu llawer o blant, ac mewn oes heb ddulliau atal cenhedlu, byddai nifer sylweddol o blant ar bob aelwyd. Prin fod llawer o ofid am iechyd y fam, nac am iechyd y plant o ran hynny. Yr un fyddai'r hanes yn y cyfnodau Beiblaidd, a byddai plant yn gyfarwydd â gwaith diflas a chaled, yn bugeilio defaid neu gario manion bethau. Mewn unrhyw ganolfan bentrefol byddai plant yn rhan o brysurdeb a sŵn yr ardal. Ymateb digon cyffredin fyddai i'r pregethwr teithiol gael plant yn casglu o'i gwmpas ac yn hawlio sylw. Pa ryfedd i'r disgyblion eu cymell i fynd i ffwrdd, a hynny'n gwbl ddiseremoni. Roedd cymhelliad Iesu i gadw'r plant wrth ei draed yn nodweddiadol ohono. Torrodd gonfensiwn y cyfnod a derbyn plant yn llawen.

### Myfyrdod

Mae'r dywediad Saesneg 'Children should be seen and not heard' yn un digon cyfarwydd. Bu'r syniad hwn yn gyffredin ar hyd y canrifoedd ac ar draws y diwylliannau. Roedd cymaint ohonynt fel nad oedd modd eu cadw dan reolaeth heb orchymyn tawelwch. Profiad cymharol ddiweddar yw gweld aelwydydd gyda darpariaeth i ddiddanu ac addysgu plant. Cyn yr Ail Ryfel Byd, prin oedd gweld llyfrau na theganau addysgol i blant. Byddai haenau tlotaf y gymdeithas yn chwilio am rywbeth i'r plant ei wneud a fyddai'n dod ag incwm i'r aelwyd. Clywsom lawer am bwysigrwydd rhoi addysg i blant yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, ond cyn hynny byddai plant yn gweithio dan ddaear neu mewn ffatrïoedd, yn y caeau ac yn gwasanaethu.

Prin oedd y ddarpariaeth i blant mewn ysgolion ac eglwysi, a rhoddwyd bri ar waith yr ysgolion Sul. Dengys ystadegau'r eglwysi fod y niferoedd wedi dechrau gostwng erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac er i'r dirywiad gymryd degawdau i weld ysgolion Sul yn cau yn llwyr, dyna sydd wedi digwydd bellach.

Erbyn hyn, mae angen i eglwysi chwilio am gynlluniau gwahanol i ddal sylw'r ifanc ac i rannu stori a geiriau Iesu mewn ffordd ddeniadol a dychmygus. Diolch i Gyngor Ysgolion Sul Cymru, ceir adnoddau niferus – yn llyfrau print a deunydd sydd ar gael i'w lawrlwytho'n ddigidol. Bydd ambell eglwys yn trefnu clybiau plant gydag eglwysi eraill, a hynny ar noson waith, gan fod mudiadau seciwlar yn cynnig gweithgareddau i'r plant a'r bobl ifanc na all yr eglwysi gystadlu â hwy. Ceir cymdeithas o glybiau yn sir Gaerfyrddin yn cydweithio i gyflogi swyddog datblygu ac, yn y gogledd yn benodol, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi llwyddo i hyfforddi a chyflogi arweinwyr i'r ifanc i gydweithio ag eglwysi. Erbyn hyn, ceir darpariaeth gyffelyb mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Dathlwn eu mentergarwch a'u brwdfrydedd. Diolchwn am bob ymdrech i rannu geiriau Iesu â phlant ac am y modd y bydd eglwysi yn trefnu i'w haelodau fynd yn gyson i ysgolion a chyfrannu at raglen Agor y Llyfr.

### Gweddi

Gweddïwn, Arglwydd, dros lwyddiant pob ymdrech i helpu plant a phobl ifanc i weld bod geiriau Iesu yn berthnasol yn eu twf fel pobl a bod addysg dda o bob math yn bwysig i'w datblygiad. Ysgoga wirfoddolwyr i'r cynllun Agor y Llyfr ym mhob ardal, a boed i'r athrawon a'r disgyblion eu croesawu. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Beth oedd agwedd yr Iddewon at blant yn gyffredinol yng nghyfnod gweinidogaeth Iesu?
2. Cadw'r plant draw oedd meddylfryd y disgyblion, a hynny er mwyn rhoi lle a llonydd i Iesu. Ai dyna oedd meddylfryd eglwysi Cymru dros y ganrif ddiwethaf?
3. Beth garech chi ei ddweud wrth blant am Iesu?
4. O feddwl am y plant rydych yn eu hadnabod, sut byddwch chi'n siarad am Iesu: fel eich ffrind neu fel cymeriad hanesyddol?
5. Plant yw'r grŵp cyntaf i ddioddef mewn sefyllfaoedd o newyn, rhyfel, tlodi a dirwasgiad. Pam?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 14 Ionawr, am 7.30yh**

Bydd Lisa Gwilym yn ymweld â sir Fflint a Wrecsam i ddysgu mwy am yr emynau sy'n ysbrydoli dau o Gymry amlwg y gogledd-ddwyrain – y Barnwr Nic Parry a'r gweinidog Aled Lewis Evans, cyfranwyr i'r gyfrol *Hoff Emynau'r Cymry*. A chawn berfformiad swynol gan y gantores Ffion Emyr.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 14 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Allan Pickard, Caerdydd

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 14 Ionawr, am 12yp**

Oedfa dan ofal Beti Griffiths, Lledrod

# Cofio cyfraniad arloesol Elisabeth James i'r Cyngor Ysgolion Sul




Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Elisabeth James, Aberystwyth, ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Elisabeth oedd ein Llywydd Anrhydeddus fel Cyngor ers dros 25 mlynedd, a bu'n aelod gweithredol o'r Cyngor am dros 50 mlynedd, gan gamu i'r swydd y bu i'w phriod, Dan Lynn James, ei llenwi cyn hynny.

Bu Dan ac Elisabeth yn arloeswyr ym maes datblygu a chreu gwerslyfrau i blant ac ieuenctid ysgolion Sul Cymru, gan ysgrifennu a golygu cyfresi di-ri o lyfrau a gafodd eu defnyddio gan genedlaethau o blant. Cyhoeddwyd y gwerslyfrau cyntaf ganddynt ddechrau'r saithdegau, ac ar y pryd, gydag ysgolion Sul yn eu bri, roedd degau o filoedd o lyfrau yn cael eu hargraffu. Bu Elisabeth yn olygydd cyffredinol i gyfres gwerslyfrau Gyda'n Gilydd, a gyhoeddwyd ganol y nawdegau, a hyd yn oed bryd hynny argraffwyd 15,000 o lyfrau yn flynyddol. Tybed faint o blant Cymru a ddysgodd am storïau'r Beibl a'r hanes am Iesu trwy waith Elisabeth dros gyfnod o dros 30 mlynedd?


Bu Elisabeth hithau yn awdur, yn gyfieithydd ac yn olygydd ffyddlon i Gyhoeddiadau'r Gair am flynyddoedd wedi hynny, gan baratoi gwerslyfrau a nifer o Feiblau lliw a llyfrau darllen i blant. Yn nyddiau cynnar y wasg fyddai dim yn mynd at yr argraffwyr heb i Elisabeth sicrhau bod pob gair yn ei le, a'r testun oll yn ffyddlon i'r Beibl. Roedd ei brwdfrydedd a'i sêl dros waith y deyrnas bob amser yn heintus, a diolchwn am ei chyfraniad i fywyd ysbrydol ein cenedl. Gwnaeth ymdrech i geisio pontio ac uno pobl o draddodiadau, safbwyntiau ac ieithoedd gwahanol, gan roi Iesu yn y canol bob amser. Roedd yn weddïwraig ffyddlon a thriw, ac yn cofio am waith cynifer o fudiadau Cristnogol yn y gweddïau hynny.

Yn bersonol, mae gen i atgofion i'w trysori o dreulio amser ar yr aelwyd ym Mronallt wedi ymgolli ynghanol proflenni, wrth iddi gywiro a chynghori, a'r sgwrs bob amser yn fendithiol. Roedd croeso ar yr aelwyd bob amser, gyda chinio neu swper yn rhan o'r croeso hwnnw. Diolchwn i Dduw amdani, ac am ei ffydd gadarn a fu'n angor iddi gydol ei hoes.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Bethan, Gwenno, Dafydd a'r teulu oll yn eu hiraeth. Cynhelir ei hangladd yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 13 Ionawr, am 11.30 o'r gloch.

Ei dymuniad oedd bod unrhyw roddion er cof amdani yn mynd at waith y Cyngor Ysgolion Sul, a diolchwn am y cyfle i gydweithio â'r teulu i wireddu hynny. Byddwn yn rhannu dolen yn fuan lle gall pawb sy'n dymuno gyfrannu ar lein yn ogystal. Bydd cronfa yn cael ei sefydlu i wireddu project arbennig er cof am Elisabeth.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*






# Noson Dathlu’r Nadolig ym Mhontrhydfendigaid



Nos Lun, 4 Rhagfyr, a hithau’n noson oer o aeaf, daeth nifer o bobl i Gapel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, i ddathliad Nadoligaidd arbennig a drefnwyd gan Gerald Morgan, Tregaron. Cyflwynodd Annwen Davies, Swyddffynnon, y ganfed salm i agor noson o ddarlleniadau a charolau amrywiol. Roedd y canu cynulleidfaol dan arweiniad medrus Lyndsay Cameron-Jenkins, Tregaron.

Cafwyd perfformiadau arbennig o garolau Gerald Morgan gan Dafydd Jones, Ciliau Aeron; Carys Ann Davies, Pontrhydfendigaid a Chôr Ysgol Gynradd Gymunedol Pontrhydfendigaid. Rhwng pob carol cyflwynodd Sioned Fflur, Bro Mebyd, ac Annwen Davies gerddi Nadoligaidd eu naws yn ogystal â darlleniadau o’r ysgrythur. Fel arfer, rhoddwyd sail gadarn i’r holl ganu gan y gyfeilyddes Neli Jones, Bro Mebyd. Diolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr. Diolch hefyd i feirdd Ysgol Henry Richard, sef Guto Davies, Iolo James, Buddug Jones a George Lewis, am ddarllen eu cerddi personol am y Nadolig, a gwneud hynny gyda graen.

Pwrpas y noson oedd clodfori’r Arlgwydd a chodi arian at elusen Tŷ Hafan. Llywydd y cyfarfod oedd y Cynghorydd Ifan Davies, Dôlyrychain, a chafwyd ganddo rodd hael iawn ac araith effeithiol yn tanlinellu gwaith pwysig Tŷ Hafan. Gwnaed casgliad gan Ian Huws ar y diwedd, a braf yw cyhoeddi bod y noson wedi codi £390.02 at yr achos teilwng hwn. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

*Gerald Morgan*



Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul Pandy Tudur

# Dathlu Gŵyl y Geni yn Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa ar gyfer oedfa arbennig wedi ei llunio gan Janet i ddathlu Gŵyl y Geni. Cymerwyd rhan gan 24 o unigolion, yn cynnwys plant, ieuenctid a rhieni, â phawb yn derbyn canmoliaeth uchel am eu cyflwyniadau graenus. Mwynhawyd unawdau, adroddiadau, darlleniadau o’r Beibl, gweddïau, grwpiau canu a sgyrsiau amserol, a’r cyfan yn ein harwain mewn ffordd syml ond effeithiol tuag at y preseb ym Methlehem. Oherwydd prysurdeb y plant, anodd oedd credu mai’r tro cyntaf iddynt ganu gyda’i gilydd oedd yn yr oedfa. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann, a bu Delyth a Janet yn cyfeilio i’r plant.

Diolchodd ein Gweinidog, y Parchedig Densil Morgan, i bawb am eu gwaith, ac yn arbennig i Janet am ei llafur caled mewn cyfnod anodd, gan ychwanegu ei bod yn llwyddo i gynnal oedfa bob tro er gwaetha’r problemau. Ar ran yr Ysgol Sul cyflwynodd Esther ac Ifan anrheg i Janet fel gwerthfawrogiad o’i gwaith yn ystod y flwyddyn.

Datganodd hithau ei gwerthfawrogiad i bawb, yn enwedig y rhieni am eu cydweithrediad ac i Llinos am ei chymorth mawr. Diolchodd hefyd i’r tri gŵr doeth, sef Alun, Eifion a John Elfyn, am baratoi’r llwyfan.

Ar ddiwedd yr oedfa daeth cnoc ar y drws a phwy oedd yno ond Siôn Corn. Bu’n brysur yn dosbarthu anrheg i bob un oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa. Yna mwynhaodd y plant a’r oedolion de parti ardderchog wedi ei baratoi gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos. Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi cael prynhawn bendithiol a phleserus iawn yng nghwmni ein gilydd.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru